**Rhif: WG37689**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Cynllun Drafft Ymaddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd

27 Mehefin 2019

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint i Goron ISBN digidol 978-1-83876-625-2

# Tabl Cynnwys

**Cyflwyniad** ..... **3**
Cyd-destun polisi ..... 3
**Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad** ..... **4**
Adran A – Ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad ..... 5
*Cwestiwn 2* ..... *5*
*Cwestiwn 3* ..... *7*
*Cwestiwn 4* ..... *16*
*Cwestiwn 5* ..... *16*
*Cwestiwn 6* ..... *18*
*Cwestiwn 8* ..... *19*
*Cwestiwn 9* ..... *20*
Adran B – Ymatebion yn ymwneud â datgarboneiddio ..... 29
**Atodiad 1 – Cwestiynau'r Ddogfen Ymgynghori** ..... **30**

## Cyflwyniad

Yn 2017, cyhoeddodd Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd ei Adroddiad Tystiolaeth ar gyfer ail Asesiad Risg y DU ar Newid yn yr Hinsawdd (CCRA). Nododd crynodeb Cymru o'r CCRA 56 o beryglon i Gymru oherwydd effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mewn ymateb i'r adroddiad, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Cynllun Ymaddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd (CCAPW) newydd.

Ers gwneud yr ymrwymiad hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n galed i lunio CCAPW newydd, gan gydweithio â rhanddeiliaid ar hyd y ffordd. Ym mis Medi 2018, cynhaliwyd dau ddigwyddiad i randdeiliaid er mwyn trafod y set gyntaf o gamau gweithredu drafft i'w cyhoeddi yn y Cynllun Ymaddasu, ac ystyried sut i'w gwella.

Yn dilyn adborth gan randdeiliaid, datblygwyd drafft terfynol o'r CCAPW, yn cyflwyno fframwaith ar gyfer ymaddasu i newid yn yr hinsawdd yng Nghymru, cyn nodi 32 o gamau gweithredu sydd i'w cwblhau yn ystod oes 5 mlynedd y cynllun. Cyhoeddwyd y drafft terfynol at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2018, ac mae'r ddogfen hon yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion a'n camau nesaf tuag at gyhoeddi fersiwn derfynol a llawn o Gynllun Ymaddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd.

### Cyd-destun polisi

Fel gweddill y byd, mae Cymru eisoes yn dechrau teimlo effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Rydym yn cael mwy o law yn y gaeaf ac mae llifogydd yn dod yn fwy cyffredin o ganlyniad. Mae hafau poethach wedi creu problemau i ffermwyr. Byddwn yn wynebu rhagor o broblemau hefyd o ganlyniad i'r cynnydd yn lefelau'r môr, gwyntoedd cryfach a stormydd tanbaid.

Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i liniaru newid yn yr hinsawdd drwy raglen ddatgarboneiddio, ond mae angen i ni sicrhau ein bod ni'n gydnerth ac yn barod i ymaddasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd o ganlyniad i allyriadau byd-eang ddoe, heddiw ac yfory. Mae ymaddasu i newid yn yr hinsawdd yn ymateb i gynhesu byd-eang sy'n ceisio lleihau natur agored i niwed ein hamgylchedd, ein heconomi a'n cymdeithas i wneud iawn am ganlyniadau unrhyw effeithiau andwyol – a gwneud y gorau o unrhyw newidiadau a all godi.

Mae'r angen i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd wedi'i nodi fel rhan o ddarpariaethau Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Mae'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gyflwyno adroddiad ar eu hamcanion, camau gweithredu a blaenoriaethau'r dyfodol ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Hefyd, mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Asesiad Risg ar Newid yn yr Hinsawdd (CCRA) er mwyn asesu'r peryglon i'r DU sy'n deillio o effeithiau presennol newid yn yr hinsawdd a'r effeithiau a ragwelir. Dangosodd y CCRA diweddaraf fod angen gwneud mwy er mwyn ymaddasu i beryglon newid yn yr hinsawdd yng Nghymru, ac o ganlyniad ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyhoeddi CCAPW newydd.

Mae'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd yn nodi nifer o ofynion ychwanegol ar gyfer Gweinidogion Cymru yn ymwneud ac ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd. Yn ogystal â nodi bod angen llunio adroddiadau, mae'r Ddeddf yn datgan bod gan Weinidogion Cymru bwerau i lunio canllawiau ar gyfer cyrff cyhoeddus ar ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a phwerau yn ôl disgresiwn i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau adrodd lunio adroddiadau ar eu hasesiad o effeithiau presennol y newid yn yr hinsawdd a'r effeithiau a ragwelir.

## Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

Daeth cyfanswm o 40 o ymatebion i law i'r ymgynghoriad ar Gynllun Drafft Ymaddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd.[1] Cafwyd 25 o ymatebion gan sefydliadau a 15 gan unigolion. Y sefydliadau a ymatebodd oedd Awdurdodau Lleol, sefydliadau trydydd sector, Cyrff Anllywodraethol (NGOs), Byrddau Iechyd, Prifysgolion, Sefydliadau Siartredig, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Undebau Amaethwyr a Cyfoeth Naturiol Cymru. Oherwydd ehangder yr ymateb, rhoddwyd ystyriaeth i bob sector. Mae'r dadansoddiad yn yr adran hon wedi'i ddadgyfuno yn unol â phob cwestiwn yn yr ymgynghoriad (cwestiynau 2 i 10) ar gyfer yr ymatebion a ddilynodd strwythur cwestiynau'r ymgynghoriad. Mae unrhyw ymateb na chafodd ei gyflwyno trwy holiadur yr ymgynghoriad wedi'i gynnwys yn y crynodebau a restrir yng nghwestiwn 10 *("Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am yr ymgynghoriad hwn?").* Mae rhestr o'r holl gwestiynau yn yr ymgynghoriad wedi'i chynnwys yn atodiad 1 ar ddiwedd y ddogfen hon.


Roedd cyfran fawr o'r ymatebion a ddaeth i law yn darparu adborth yn ymwneud â datgarboneiddio (lliniaru newid yn yr hinsawdd) ac nid ymaddasu. Mewn achosion o'r fath, darparwyd adborth i swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ym maes lliniaru newid yn yr hinsawdd ac mae ymateb cryno i'r sylwadau hyn wedi'i gynnwys yn adran B isod.

[1] Nodwyd 9 ymateb arall, ond nid oedd ganddynt unrhyw gynnwys, felly nid ydynt wedi'u cynnwys.

## Adran A – Ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad

| |
|---|
| ***Cwestiwn 2*** – Yn gyffredinol, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu posibl ar gyfer ymaddasu i newid yn yr hinsawdd a nodir yn y ddogfen hon? (1=cytuno'n llwyr, 5=anghytuno'n llwyr). |
| Esboniwch y rhesymau am eich ateb. |

Cyflwynir y cwestiwn hwn mewn dwy ran. Mae'r rhan gyntaf yn gofyn am farn ymatebwyr am y CCAPW. Mae'r siart isod yn crynhoi'r canlyniad.




**Ffigur 1 – Ymatebion i gwestiwn 2 ar gyfer graddau cytuno â'r camau gweithredu ymaddasu.**

Pan ofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau roeddent yn cytuno â'r camau gweithredu a nodir yng Nghynllun Ymaddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd, yr ateb mwyaf cyffredin oedd 'Anghytuno'. Mae crynodeb o'r rhesymau am yr atebion wedi'i gynnwys isod, ar sail ymatebion cadarnhaol ac ymatebion negyddol.

### *Ymatebion cadarnhaol*

Roedd rhai ymatebwyr yn hapus bod coetiroedd wedi'u nodi'n ased blaenoriaeth ar gyfer dal a storio carbon, yn ogystal ag ymaddasu i newid yn yr hinsawdd. Yn yr un modd, roedd rhai ymatebwyr yn hapus i weld bod seilwaith yn faes blaenoriaeth yn y cynllun. Roedd yn dda gan rai ymatebwyr bod y cynllun drafft yn cyfeirio at atebion seiliedig ar natur fel dull o fynd i'r afael â llawer o faterion ymaddasu i newid yn yr hinsawdd. Cafwyd sylwadau cadarnhaol yn ymwneud â lefel y sylw ar ymaddasu'r môr a'r arfordir. Nododd un

ymatebydd fod gwaith rhagweithiol yn mynd rhagddo ym maes tanau gwyllt, ond teimlai fod diffyg manylion yn y cynllun.

### *Ymatebion negyddol*

Yn gyffredinol, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod diffyg ymdeimlad o frys yn y cynllun ac nad yw'r uchelgais ar gyfer y sector defnydd tir yn ddigon pellgyrhaeddol. Nododd un ymatebydd fod y newid yn yr hinsawdd yn cael ei ddisgrifio fel perygl y dyfodol yn rhy aml, ond mewn gwirionedd rydym eisoes yn dechrau gweld ei effeithiau. Cyfeiriodd ymatebydd arall at y penderfyniad i ystyried peryglon brys yn unig (sy'n cael eu categoreiddio fel "angen mwy o gamau gweithredu" neu "flaenoriaeth ymchwil" yn y CCRA). Fodd bynnag, dadleuodd fod angen parhau i ganolbwyntio ar gamau gweithredu presennol er mwyn helpu i sicrhau bod y cynllun yn cysylltu'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd â chamau gweithredu yn y dyfodol. O ganlyniad, roedd yn argymell y dylai'r cynllun ystyried yr holl risgiau yn CCRA2 y DU er mwyn cyflwyno darlun cyflawn ac integredig.

Mynegodd nifer o ymatebwyr bryderon yn ymwneud â monitro a gwerthuso, gan nodi bod y ddogfen yn datgan bod "angen cadarnhau" dangosyddion a gwaelodlinau. Yn ôl yr ymatebwyr hyn, mae angen llawer mwy o wybodaeth am hyn. Yn yr un modd, nododd un ymatebydd nad oedd y broses o lywodraethu'r cynllun yn eglur.

Yn ôl un ymatebydd, mae angen i'r cynllun fod yn fwy eglur ynglŷn â pha gyllid sy'n cael ei ddefnyddio i gefnogi'r camau gweithredu a gyflwynir yn y cynllun.

Cafwyd nifer o awgrymiadau golygyddol yn yr adran hon, gan gynnwys:

- nodi pwy sy'n gyfrifol am weithredu'r camau yn y tabl sy'n crynhoi'r camau gweithredu yn atodiad 1. Hefyd, mae angen eglurdeb wrth ddiffinio 'partneriaid cyflenwi' a 'rhanddeiliaid',
- gwella iaith y ddogfen er mwyn ei lleihau,
- cynnwys fersiwn cryno,
- bod yn fwy eglur ynglŷn â sut bydd y camau gweithredu yn arwain at ymaddasu i beryglon newid yn yr hinsawdd, a
- disodli cyfeiriadau at UKCP09 â data UKCP18[2] a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Roedd un sylw yn nodi bod angen i'r cynllun fod yn fwy eglur ynglŷn â'r cysylltiadau a'r gwahaniaethau rhwng datgarboneiddio newid yn yr hinsawdd (cyfeirir at hyn fel 'lliniaru' hefyd) ac ymaddasu i newid yn yr hinsawdd.

Roedd un sefydliad am i Lywodraeth Cymru ddatgan argyfwng hinsawdd fel rhan o Gynllun Ymaddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd.

Ym marn un ymatebydd, nid yw targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer coedwigo yn uchelgeisiol, ac mae camau gweithredu yn y maes hwn yn rhy araf ar hyn o bryd.

Mynegodd un ymatebydd bryderon ynglŷn â swyddogaeth y system gynllunio, gan ddadlau nad yw'r system bresennol yn gweithio. Roedd rhai'n dadlau y dylai datblygwyr dalu am orfodi amodau os ydynt yn methu â chydymffurfio â chyfyngiadau cynllunio yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd. Yn yr un modd, gofynnwyd i Lywodraeth Cymru ystyried dulliau cyllidol, fel trethu, er mwyn effeithio ar ymateb ymddygiadol i'r perygl o newid yn yr hinsawdd.

[2] Rhagolygon Hinsawdd y DU 2019. https://www.metoffice.gov.uk/research/collaboration/ukcp

Teimlodd un ymatebydd nad yw'r peryglon glaw ac afonol a nodir yn yr Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd yn cael eu hadlewyrchu'n ddigon cryf yn y CCAPW.

***Cwestiwn 3*** – Oes gennych chi unrhyw syniadau am sut dylem gyflawni'r camau gweithredu posibl ar gyfer ymaddasu i newid yn yr hinsawdd?

Derbyniwyd nifer fawr o sylwadau yn yr adran hon. Felly, mae'r sylwadau wedi'u crynhoi ar sail meysydd polisi allweddol.

*Strategaeth a chyfathrebu*

- Monitro a gwerthuso

  Derbyniwyd nifer sylweddol o sylwadau yn ymwneud â diffyg cynllunio ar gyfer monitro a gwerthuso yn y ddogfen ddrafft.

  Yn ystod y broses ymgynghori, gweithiodd Llywodraeth Cymru yn agos gydag arbenigwr allanol ar ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd er mwyn datblygu fframwaith monitro a gwerthuso i ategu fersiwn derfynol y cynllun. Datblygwyd y fframwaith monitro a gwerthuso ar sail cyngor a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd, a bydd yn egluro sut rydym yn bwriadu mesur cynnydd yn erbyn y cynllun dros y blynyddoedd nesaf.

- Cyfathrebu

  Daeth sylwadau i law yn gofyn am eglurder ynglŷn â pha ddulliau cyfathrebu newydd a fydd yn cael eu datblygu i helpu pobl i ddeall peryglon newid yn yr hinsawdd a'r camau sydd ar waith i ymaddasu i'r peryglon hynny. Hefyd, awgrymwyd y dylid sefydlu cynulliad dinasyddion, neu gymuned ymaddasu, i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn atebol am ei sylwadau.

  Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adborth hwn, a bydd yn gwneud diwygiadau addas i'r cynllun er mwyn egluro ein bwriadau yn ymwneud â gwella dulliau cyfathrebu. Gall hyn gynnwys adran well yn ymwneud â llywodraethu yn y CCAPW, er mwyn sefydlu grŵp cyfeirio allanol o arbenigwyr ymaddasu. Mae rhagor o wybodaeth mewn ymateb i sylwadau ar gyfathrebu wedi'i chynnwys o dan gwestiwn 5 isod.

- Pŵer Adrodd ar Ymaddasu a gweithio yn y sector cyhoeddus

  Daeth sylwadau i law yn gofyn am ddatganiadau cryfach ynglŷn â sut mae penderfyniadau ymaddasu yn cael eu gwneud yn y sector cyhoeddus. Roedd yr adborth o'r ymgynghoriad o blaid adolygu defnydd Llywodraeth Cymru o'r Pŵer Adrodd ar Ymaddasu a roddwyd i Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008. Hefyd, gofynnwyd i ni ddangos pwysigrwydd Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol[3] wrth wneud penderfyniadau.

  Bydd y sylwadau uchod yn cael eu hystyried wrth ddrafftio'r cynllun terfynol.

[3] https://llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2017?_ga=2.33197050.530104388.1560942954-1711716451.1560942954

- Golygyddol

  Cafwyd nifer o awgrymiadau golygyddol yn yr ymgynghoriad. Roeddent yn cynnwys yr angen i egluro'r gwahaniaethau rhwng camau gweithredu lefel isel a lefel uchel ym mhob pennod a phwysigrwydd cyfleu ansicrwydd wrth ddarogan a modelu'r newid yn yr hinsawdd.

  Bydd nifer sylweddol o ddiwygiadau golygyddol yn cael eu cynnwys yn fersiwn derfynol y cynllun. Bydd hyn yn cynnwys newid y tablau sy'n crynhoi'r camau gweithredu ar ddechrau pob pennod er mwyn egluro'r camau. Hefyd, byddwn yn adolygu'r holl ystadegau a ddefnyddir yn y cynllun, gan gyfeirio at Ragolygon Hinsawdd y DU 2018 (UKCP18) lle y bo modd, gan sicrhau bod ansicrwydd rhagolygon newid yn yr hinsawdd yn eglur i bawb.

- Cysylltiadau â datgarboneiddio

  Nododd rhai ymatebwyr fod angen nodi pwysigrwydd ymaddasu yn fwy eglur er mwyn gwarchod asedau datgarboneiddio (er enghraifft, yr angen i warchod mawndiroedd dwfn rhag sychder, a'r angen i sicrhau nad yw coetir aeddfed yn cael ei ddifrodi).

  Bydd newidiadau'n cael eu hystyried yn fersiwn derfynol y CCAPW er mwyn gwneud y cysylltiadau hyn yn eglur.

- Cyllid

  Nododd ymatebwyr fod angen esbonio'r cyllid sydd ar gael ar gyfer pob cam gweithredu yn y cynllun, a'r cyllid a allai fod ar gael ar gyfer camau eraill yn ymwneud ag ymaddasu i newid yn yr hinsawdd.

  Bydd diwygiadau'n cael eu hystyried yn fersiwn derfynol y cynllun er mwyn dangos pa gyllidebau sy'n cyfrannu at ymaddasu i newid yn yr hinsawdd lle y bo modd.

- Sylwadau eraill

  Gofynnodd un ymatebydd a yw tanau gwyllt wedi'u hepgor o'r cynllun. Hefyd, derbyniwyd rhai sylwadau yn dadlau o blaid defnyddio seilwaith gwyrdd yn well yn y cynllun.

  Mae'r CCAPW yn canolbwyntio ar y risgiau 'mwy brys' a nodir yn yr Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd (CCRA). Ar hyn o bryd, mae'r CCRA yn datgan y dylai Cymru barhau i roi'r camau presennol ar waith yn ymwneud â risgiau sy'n gysylltiedig â thanau gwyllt. Fodd bynnag, byddwn yn adolygu'r pwynt hwn ar gyfer fersiwn derfynol y cynllun.

  Mae Polisi Cynllunio Cymru wedi pennu gofyniad ar gyfer Asesiadau Seilwaith Gwyrdd fel rhan o'r broses Cynllun Datblygu Lleol er mwyn nodi a hyrwyddo asedau o'r fath.

*Amaethyddiaeth, rheoli'r tir a phriddoedd*

- Polisi Adnoddau Naturiol ac Atebion Seiliedig ar Natur

  Derbyniwyd sawl sylw yn datgan y dylai CCAPW wneud mwy i gysylltu pwysigrwydd Polisi Adnoddau Naturiol (PAN), ac Atebion Seiliedig ar Natur yn benodol, â gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, fel rheoli llifogydd, coedwigaeth a gwarchod bioamrywiaeth.

  Bydd diwygiadau'n cael eu hystyried ar gyfer fersiwn derfynol y cynllun er mwyn sicrhau bod camau gweithredu yn ymwneud â'r PAN yn fwy cyson â'r maes polisi perthnasol. Gallai hyn gynnwys ailstrwythuro'r bennod ar Natur Ymaddasol a'r Economi Wledig.

- Rheoli'r Tir ac Amaethyddiaeth

  Galwodd rhai ymatebwyr am fwy o gynnwys yn y cynllun yn ymwneud â dulliau ffermio cynaliadwy, gan gynnwys ffermio organig, paramaethu a dim dulliau trin tir / aredig fel modd o hybu bioamrywiaeth. Yn ogystal, galwodd nifer o ymatebwyr am ddileu arferion rheoli tir niweidiol, gan gyfeirio at gwympo coed yn ddiangen fel enghraifft. Roedd rhai ymatebwyr yn cefnogi'r egwyddorion sylfaenol o Bolisi Rheoli Tir y Dyfodol newydd a sut i gyfeirio polisi er mwyn hyrwyddo ymaddasu. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylid gwrthod y camau gweithredu posibl a restrwyd ar gyfer amaethyddiaeth gan eu bod yn dibynnu'n bennaf ar y cynigion a gafodd eu cynnwys yn yr ymgynghoriad Brexit a'n Tir a wrthodwyd ganddynt.

  Gofynnwyd i ni a oes gwaith ymchwil wedi'i gwblhau yn ymwneud â thorri ffosydd i gadw priddoedd, ac rydym wedi derbyn sylwadau yn gofyn am eglurder ynglŷn ag anghenion ymchwil eraill y sector, gan ddadlau y dylai hyn fod yn rhan o gymorth a chanllawiau amaethyddiaeth. Hefyd, gofynnwyd i ni roi mwy o ystyriaeth i bwysigrwydd tir amaethyddol, nad yw'n fawndir nac yn goetir, fel ased datgarboneiddio, gan gydnabod hefyd nad yw'r pryderon yn ymwneud â chynnal mawn dwfn yn gysylltiedig â datgarboneiddio yn unig.

  Cafwyd datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar 4 Mehefin yn ymwneud ag ymgynghoriad Brexit a'n Tir 2018, a oedd yn cynnig cymorth rheoli tir newydd ar gyfer Cymru. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cynigion i sicrhau bod busnesau fferm yn fwy gwydn er mwyn helpu i barhau i gynhyrchu bwyd cynaliadwy (gan gynnwys y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd) ochr yn ochr â gwella canlyniadau amgylcheddol fel datgarboneiddio, gwella ansawdd dŵr ac aer a chynefinoedd cydnerth. Cynigir y bydd y broses barhaus o sicrhau canlyniadau amgylcheddol yn creu ffrwd incwm sefydlog ar gyfer ffermwyr. Bydd y ffrwd incwm sefydlog yn helpu ffermwyr i leihau cyfnewidioldeb. Gan fod y broses ymgynghori yn parhau, ni ellir rhagweld cynnwys posibl cynllun y dyfodol. Cyhoeddir ymgynghoriad arall eleni cyn Sioe Frenhinol Cymru.

  Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o waith ymchwil yn ymwneud ag agor ffosydd i gadw priddoedd, ond mae'n bosibl bod gwaith o'r fath wedi'i gwblhau. Mae priddoedd organo-fwynol yn storfa carbon pridd arwyddocaol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â chamau gweithredu er mwyn datblygu ei dealltwriaeth o ddosbarthiad gofodol y priddoedd pwysig hyn. Yn benodol, mae mawn yn un o adnoddau amgylcheddol hanfodol Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda

Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn hyrwyddo'r gwaith o warchod mawndiroedd a'u rheoli mewn ffordd gynaliadwy.

*Coetiroedd a choedwigaeth*

- Coetiroedd a choedwigaeth

  Daeth llawer o sylwadau i law yn ymwneud â swyddogaeth coetiroedd a choedwigaeth wrth ymaddasu i newid yn yr hinsawdd. Roedd sawl sylw yn ddiolchgar am y ffaith ein bod yn cydnabod pwysigrwydd coetir fel storfa garbon, clefyd (Chalara) coed ynn fel mater gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd a rhagor o gysylltedd o ran cynefin coetir. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn credu y dylem gydnabod yr ystod ehangach o wasanaethau coetiroedd yn y CCAPW, gan gynnwys pwysigrwydd diwylliannol yn ogystal ag amgylcheddol. Hefyd, cafwyd sylwadau yn cyfeirio at yr angen i roi mwy o sylw i warchod coetiroedd hynafol.

- Safon coedwigoedd

  Yn yr un modd, daeth sylw i law yn gofyn i ni gydnabod bod coetiroedd yn gallu bod yn ffynhonnell allyriadau carbon, yn enwedig wrth ystyried arferion sy'n arwain at golli coed aeddfed. Roedd sawl sylw yn cwestiynu a yw Safon Coedwigoedd y DU (UKFS) yn addas ar gyfer ymaddasu coedwigaeth i'r perygl o newid yn yr hinsawdd neu a ddylai'r gwaith o gynllunio coedwigoedd fod yn seiliedig ar anghenion sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd a manteision eraill. Yn ogystal, awgrymodd un ymatebydd y dylai Llywodraeth Cymru hyrwyddo'r defnydd o asesiadau i-Tree Eco er mwyn sicrhau bod coed aeddfed yn cael eu gwerthfawrogi a'u diogelu mewn ardaloedd trefol, yn enwedig mewn ymateb i fygythiadau arbed costau a datblygu.

- Plannu coetir

  Daeth nifer o sylwadau i law yn ymwneud â chreu coetiroedd, a nodwyd nad ydym wedi cyfeirio at y math o goetir rydym yn bwriadu ei ddefnyddio ac nad oedd swyddogaeth coetiroedd cynhenid wedi'i nodi'n glir. Galwodd un ymatebydd am fwy o goed ar ffermydd, a mynegwyd pryderon ynglŷn â defnyddio planhigfeydd conifferaidd. Yn olaf, derbyniwyd sylw yn gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried sut mae lleoliad tyrbinau gwynt yn effeithio ar goedwigaeth.

  Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol iawn bod coed yn darparu llawer o wasanaethau, a bydd yn gwella'r CCAPW i adlewyrchu hyn. Mae gwaith i warchod coetir hynafol wedi'i gynnwys yng Nghynllun Ymaddasu Sector yr Amgylchedd Hanesyddol[4] (copi drafft). Mae effeithiau coetir a choedwigoedd fel ffynhonnell allyriadau wedi'u cynnwys mewn rheoliadau gwahanol gan gynnwys Gorchmynion Diogelu Coed, trwyddedau cwympo coed, ac ychwanegiadau o dan ganllawiau diweddar Polisi Cynllunio Cymru. Mae Safon Coedwigoedd y DU yn cynnwys canllawiau penodol ar ymaddasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd ar gynllunio coedwigoedd, ac mae'n cydnabod yr angen am reolaeth gynaliadwy fel bod coetiroedd yn parhau i ddal a storio carbon. Cydnabyddir bod cyfleoedd ar gael i goetiroedd wneud cyfraniad hanfodol at ymaddasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd

[4] https://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/SAP%20Historic%20Environment%20Parts%20I%20&%20II%20-%20English%20-%202018-09-14.pdf

trwy ddefnyddio dull mwy integredig o reoli coetir a thir yn ehangach. Bydd arweinwyr polisi adnoddau coedwigaeth Llywodraeth Cymru yn nodi hyn yn fwy eglur yn y cynllun. Nid yw'r strategaeth Coetiroedd i Gymru yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i hyrwyddo i-Tree Eco, ond mae'n datgan effaith parhau i ddefnyddio'r feddalwedd.

Mae polisi cyfredol yn ymwneud â choedwigaeth yn cydnabod bod angen i goedwigoedd fod yn amlswyddogaethol er mwyn sicrhau manteision ecosystem. Mae coedwigaeth pren meddal yn darparu deunydd adnewyddadwy sy'n gallu disodli deunyddiau carbon-ddwys, er enghraifft ym maes adeiladu, yn ogystal â chloi carbon am nifer o ddegawdau. Cydnabyddir bod coed coniffer yn tyfu'n gyflym ac yn cloi carbon yn gynt na choetir llydanddail, gan ddarparu deunydd adnewyddadwy ar gyfer yr economi. Fodd bynnag, mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn cydnabod yr angen am fathau o goetir amrywiol, gan gynnwys yr angen am goetiroedd coniffer yn y lle priodol. Hefyd, rydym yn cydnabod yr angen am eglurder ynglŷn â'r mathau o goetir rydym yn bwriadu eu defnyddio i ddiwallu ein hamcanion planhigfeydd. Bydd y CCAPW yn gwella'r gwaith hwn.

O safbwynt tyrbinau gwynt, cyfeiriodd Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 8 at gynllunio ardaloedd addas i leoli ffermydd gwynt, ac mae llawer o'r safleoedd hyn ar ystadau coetir. Er bod coed wedi'u cwympo er mwyn galluogi hyn, mae cyllid wedi'i gadw yn ôl i sicrhau bod coed newydd yn cael eu plannu i wneud iawn am hyn, o dan arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru.

*Dŵr, llifogydd, arfordiroedd a moroedd*

- Gorlifdiroedd

Daeth llawer o sylwadau i law yn ymwneud â gorlifdiroedd, yn enwedig yn y bennod ar Natur Ymaddasol a'r Economi Wledig. Mae rhai pobl wedi galw am ystyried swyddogaeth gorlifdiroedd, ac effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar orlifdiroedd, wrth dal a storio carbon, lliniaru llifogydd a sychder, datblygu mapiau gallu amaethyddol, a Rhaglen Rheoli Tir y Dyfodol Cymru.

Hefyd, daeth sylwadau i law ar orlifdiroedd mewn perthynas â'r bennod ar Gartrefi a Llefydd Diogel, a gofynnwyd yn benodol am gynnwys gorlifdiroedd fel elfen allweddol o seilwaith gwyrdd i leihau perygl llifogydd, ac fel mesur allweddol i'w ystyried wrth ddiweddaru'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Rydym yn cytuno bod gorlifdiroedd yn gallu gwneud cyfraniad pwysig at ymaddasu i newid yn yr hinsawdd. Os ydym wedi datblygu camau gweithredu ar gyfer asedau penodol (fel coetir) ac nad yw gorlifdiroedd wedi'u cynnwys, y rheswm am hyn yw bod y camau wedi'u datblygu i ymateb i beryglon penodol o'r Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd. Fodd bynnag, bydd strwythur Natur Ymaddasol a'r Economi Wledig yn newid er mwyn cydymffurfio â'n Polisi Adnoddau Naturiol, a bydd hyn yn cynnwys gwella'r cynnwys yn ymwneud â swyddogaeth gorlifdiroedd yn y CCAPW. Hefyd, byddwn yn ystyried yr angen hwn mewn dogfennau polisi eraill y mae'r cynllun yn cyfeirio atynt, fel mapiau gallu amaethyddol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried diwygiadau i gyfeiriadau at bolisi cynllunio (TAN 15 datblygiad a'r gorlifdir) yn y CCAPW er mwyn cryfhau cyfeiriad y Llywodraeth yn

unol â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

- Rheoli llifogydd

  Daeth nifer o sylwadau i law yn ymwneud â rheoli llifogydd, yn enwedig rheoli dŵr llwyd a syniadau fel hyrwyddo cynlluniau dŵr ar raddfa fach i arafu llif afonydd a dŵr ffo.

  Awgrymodd un ymatebydd fod creu neu ôl-osod toeau gwyrdd yn gyfle da i leihau dŵr ffo wyneb trefol. Rydym yn cydnabod bod toeau gwyrdd yn gallu helpu i reoli draenio dŵr wyneb fel dull rhyngdoriad ac elfen drin wrth reoli dŵr wyneb. Fodd bynnag, mae datblygwyr a Chyrff Cymeradwyo SDCau (SABs) yn gyfrifol am asesu'r systemau mwyaf priodol ar gyfer datblygiad arfaethedig[5]. O safbwynt ôl-osod SDCau yn fwy cyffredinol, er ein bod yn hyrwyddo hyn, nid ydym yn bwriadu cyflwyno gofyniad i wneud hyn ar hyn o bryd.

- Ansawdd dŵr a charthffosydd

  Cyfeiriwyd at effaith y newid yn yr hinsawdd ar ansawdd dŵr yn yr ymgynghoriad, a nodwyd nad yw'r mesurau arfaethedig yn effeithio ar gamau diogelu amgylcheddol a hyfywedd amaethyddol. Hefyd, gofynnwyd i ni ystyried effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a llifogydd ar systemau carthffosydd preifat lle y gallai gollwng dŵr gwastraff arwain at ddŵr o ansawdd gwael mewn lleoedd eraill.

  Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig y bydd rheoliadau newydd yn ymwneud ag ansawdd dŵr yn dod i rym yn 2020 er mwyn diogelu ansawdd dŵr rhag problemau fel gollwng dŵr gwastraff. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i gynorthwyo perchnogion unigol i gynnal a chadw systemau carthffosiaeth preifat.[6]

*<u>Busnes, yr economi a seilwaith</u>*

- Seilwaith

  Derbyniwyd sylw yn gofyn i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r galw cynyddol am adeiladu ffyrdd newydd, sy'n gallu dinistrio cynefinoedd. Roedd un ymatebodd yn cwestiynu a ddylai rhwydweithiau trydan barhau i ddefnyddio llinellau uwchben yn hytrach na'u gosod o dan y ddaear er mwyn osgoi'r peryglon sy'n deillio o dywydd eithafol a chwympo coed. Yn ogystal, cyfeiriodd un ymatebydd at natur fregus deunyddiau adnewyddadwy yn hinsawdd y dyfodol, gan ddadlau bod gwyntoedd cryfach yn gallu lleihau cynhyrchiant ffermydd gwynt (sydd wedi gorfod cau yn ystod gwyntoedd cryfion er mwyn osgoi difrod), gan gynyddu'r posibilrwydd y bydd tyrbinau'n disgyn ac y bydd llafn yn cael ei daflu.

---

[5] Ar ôl 7 Ionawr 2019, mae angen Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) ar gyfer dŵr wyneb ar gyfer pob datblygiad â mwy nag un anedd-dŷ neu os yw arwynebedd yr adeilad yn 100m$^2$ neu'n fwy. Mae'n rhaid i SDCau ar gyfer datblygiadau newydd gael eu cynllunio a'u hadeiladu yn unol â'r Safonau SDCau Statudol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Hefyd, mae'n rhaid i Gynlluniau SDCau gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol sy'n cyflawni swyddogaeth SDC cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.

[6] https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/water-discharges/register-your-septic-tank-package-sewage-treatment-plant/?lang=cy

Mae gofynion cynllunio presennol yn sicrhau bod y broses o ddatblygu seilwaith newydd yn cynnwys asesiad amgylcheddol, ac rydym wedi bod yn ofalus i gynnwys anghenion ymaddasu i newid yn yr hinsawdd wrth ddatblygu ein Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Rydym wedi cydnabod yr angen i symud tuag at ddulliau trafnidiaeth sy'n cael llai o effaith yn 'Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel', sy'n nodi ein huchelgais ar gyfer newid modd o orddibyniaeth ar geir.

Yn gyffredinol, y rhwydwaith dosbarthu trydan (yn hytrach na thrawsyrru) sy'n agored i niwed o goed yn cwympo llinellau uwchben. Mae rhwydweithiau dosbarthu wedi'u gosod o dan y ddaear mewn ardaloedd trefol. Nid yw gosod llinellau o dan y ddaear yn ateb cost effeithiol ar gyfer y rhwydwaith yn ei gyfanrwydd. Gallai costau cynnal a chadw gynyddu gan ei bod yn fwy anodd o lawer canfod namau o dan y ddaear. Mae gwyntoedd cryf iawn yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar gynhyrchiant ynni adnewyddadwy gan y byddai angen cau safleoedd dros dro yn unig. Fodd bynnag, bydd angen i'r gwaith cynllunio tyrbinau esblygu er mwyn sicrhau bod tyrbinau mwy o ran maint yn ddigon cryf i wrthsefyll tywydd eithafol.

*Iechyd*

- Ansawdd Aer

Nododd nifer o sylwadau fod yna gysylltiadau pwysig rhwng ansawdd aer, y newid yn yr hinsawdd ac iechyd. Nodwyd effeithiau amgylcheddol allyriadau ffermio fel amonia, a'r goblygiadau ar gyfer iechyd y cyhoedd a cholli bioamrywiaeth. Felly, gofynnwyd am sicrwydd bod Cynllun Ymaddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd yn cyd-fynd â pholisïau iechyd y cyhoedd eraill, fel ansawdd aer a rheoli sŵn.

- Aerdymheru

Gofynnodd un ymatebydd a oes modd i'r cynllun ystyried system amgen i aerdymheru er mwyn mynd i'r afael â gorboethi, gan ddadlau bod aerdymheru yn gallu niweidio'r amgylchedd.

- Darparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd

Roedd un ymatebydd yn teimlo nad yw'r camau gweithredu yn ymwneud â newidiadau i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ystyried y patrwm presennol o ddarparu mwy o ofal yng nghartrefi pobl yn hytrach na mewn ysbytai a chartrefi gofal, yn enwedig yn sgil yr effaith gynyddol ar seilwaith trafnidiaeth.

Mae'r strategaeth genedlaethol, Ffyniant i Bawb, yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau a sicrhau gwelliannau hanfodol i ansawdd aer trwy fesurau cynllunio, seilwaith, rheoleiddio, a negeseuon iechyd.

Ar hyn o bryd, mae'r DU yn cydymffurfio â holl ymrwymiadau'r UE a rhyngwladol ar gyfer lleihau allyriadau. Mae Llywodraeth Cymru, ar y cyd â Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill, wedi cyhoeddi ei chynlluniau yn Rhaglen Genedlaethol y DU ar gyfer Rheoli Llygredd Aer er mwyn helpu i wireddu ymrwymiadau lleihau allyriadau'r DU yn y dyfodol, gan gynnwys amonia a deunydd gronynnau mân. Mae'r ymrwymiadau uchelgeisiol sydd i'w gwireddu erbyn 2030 yn ceisio haneru effeithiau iechyd llygredd aer o'i gymharu â lefelau 2005.

Ochr yn ochr â hyn, ategodd Llywodraeth Cymru ei chanllawiau Cod Ymarfer Amaethyddol Da ar leihau allyriadau amonia amaethyddiaeth Cymru ar 1 Ebrill 2019, sy'n rhoi cyfrif am y Cod Fframwaith ar gyfer Arferion Amaethyddol Da i Leihau Allyriadau Amonia Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig (UNECE).

Er mwyn mynd i'r afael â llygredd aer yn effeithiol a helpu i gyflawni ein nodau llesiant, mae Llywodraeth Cymru yn credu ei bod yn hanfodol defnyddio dull gweithredu integredig ar draws y Llywodraeth. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ar Gynllun Aer Glân eleni a fydd yn cynnwys cynlluniau a pholisïau traws-sector i leihau allyriadau a gwella ansawdd aer a chanlyniadau cysylltiedig ar gyfer iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd ledled Cymru. Hefyd, rydym yn ymgymryd â gwaith i lunio Nodyn Cyngor Technegol ar Ansawdd Aer a fydd yn cyflwyno ystyriaethau manwl polisi Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r system gynllunio.

Rydym yn ystyried effaith y newid yn yr hinsawdd, fel amharu ar seilwaith, ar ddulliau darpariaeth bresennol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

*<u>Yr Amgylchedd Hanesyddol</u>*

- Cadw

  Nodwyd nad yw'r camau gweithredu ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn egluro swyddogaeth Cadw ac nad yw'r cysylltiad wedi'i nodi'n glir rhwng Cynllun Ymaddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd a Chynllun Ymaddasu Sector yr Amgylchedd Hanesyddol. Hefyd, derbyniwyd sylw yn nodi nad yw gwaith ymchwil yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd wedi'i gomisiynu gan yr Ymddiriedolaethau Archeolegol ers nifer o flynyddoedd, a bod y broses o adolygu sensitifrwydd safleoedd hanesyddol fel pe bai'n gweddu'n berffaith i adfywio'r gwaith hwn. Hefyd, nododd yr ymatebydd nad yw'r cynllun drafft yn cyfeirio at yr Adolygiad Archeolegol Arfordirol a luniwyd gan yr Ymddiriedolaethau ar gyfer Cadw.

  Cynrychiolir Cadw ar Is-grŵp Newid Hinsawdd Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol, sydd wedi llunio Cynllun Ymaddasu drafft y Sector. Cyfrannodd yr Is-grŵp at y gwaith o ddatblygu camau gweithredu Cynllun Ymaddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd (CCAPW) a'r testun ategol yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Mae hyn yn cynnwys adran sy'n pennu diben Cynllun Ymaddasu'r Sector a'i gyfraniad at weithredu'r camau strategol lefel uchel yn y cynllun hwn. Bydd y cysylltiad rhwng y CCAPW a Chynllun Ymaddasu'r Sector yn cael ei egluro a'i gryfhau yn y fersiwn derfynol. Bydd y camau gweithredu'n cael eu diwygio hefyd.

  Cwblhawyd arolwg sylfaenol llawn o archeoleg morlin Cymru yn y 1990au gan Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru. Mae'r canlyniadau ar gael trwy'r Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol, a chyhoeddwyd adolygiad o'r dystiolaeth mewn monograff â'r teitl 'Archeoleg Arfordirol Cymru' yn 2002. Dilynwyd argymhellion a bylchau mewn tystiolaeth a amlygwyd yn yr adroddiad gan gyfres o arolygon thematig manwl a gwblhawyd rhwng 2000 a 2005. Roedd y rhain yn cynnwys astudiaethau'n ymwneud â choredau pysgod, melinau llanw a phorthladdoedd a harbwrs. Cwblhawyd rhagor o waith trwy raglen Arfordir ar ôl 2010, a oedd yn rhaglen gymunedol o arolygon a gwaith cloddio. Mae rhaglen Arfordir wedi dirwyn i ben i raddau helaeth, ond gellid parhau â model tebyg er mwyn helpu i reoli elfennau'r amgylchedd hanesyddol o forlinau sy'n encilio ac yn erydu, fel y dangoswyd gan waith cloddio Ymddiriedolaeth Archeoleg Dyfed yn Llanismel a Sant Padrig.

*Bioamrywiaeth*

- Bioamrywiaeth

  Derbyniwyd un sylw yn nodi y dylai colli bioamrywiaeth, a gwrthdroi'r broses hon, fod yn ganolog i strategaeth amgylcheddol y Llywodraeth, a bod y system gynllunio bresennol yn methu cynnal a gwella ecosystemau, a fyddai'n gwrthdroi'r gostyngiad mewn bioamrywiaeth. Hefyd, derbyniwyd cais am greu rhwydweithiau ecolegol er mwyn gwella cysylltedd rhwng dalgylchoedd cynefinoedd a chaniatáu gwasgaru rhywogaethau – gan gynyddu'r tebygolrwydd y bydd rhywogaethau'n goroesi.

  Mae gwrthdroi'r broses o golli bioamrywiaeth eisoes yn ganolog i'n deddfwriaeth newydd, gan gynnwys yn Rhan 1 o egwyddor Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a'r Ddyletswydd ar gyfer Awdurdodau Cyhoeddus yn Adran 6 (Cryfhau Ecosystemau). Hefyd, mae'n ganolog i'n Polisi Adnoddau Naturiol ac yn rhan allweddol o ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn gysylltiedig â nod 'Cymru Gydnerth'. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ystyried bioamrywiaeth a'r ddyletswydd Adran 6 y cyfeiriwyd ati uchod wrth wneud penderfyniadau cynllunio, ac mae'r Safonau Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy a gyflwynwyd yn ddiweddar yn hyrwyddo ystyriaeth o fioamrywiaeth wrth gynllunio systemau draenio dŵr wyneb ar gyfer datblygiadau newydd.

*Rheoliadau Cynllunio ac Adeiladu*

- Derbyniwyd ymateb yn dadlau nad yw awdurdodau cynllunio yn diogelu Tir BMV (y tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas) yn ddigonol, bod tir BMV (Graddau 3a, 2 ac 1 yn y Categorïau Tir Amaethyddol) mewn perygl, a bod tir Gradd 3a yn wynebu perygl penodol o ddatblygiadau arfaethedig mewn Cynlluniau Datblygu Lleol.

  Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru yn datgan yn glir mai tir amaethyddol graddau 1, 2 a 3a yn y system Categorïau Tir Amaethyddol yw'r tir gorau a mwyaf hyblyg, a dylid ei ystyried yn adnodd cyfyngedig ar gyfer y dyfodol. Hefyd, mae'n datgan y dylid rhoi pwyslais sylweddol ar amddiffyn tir o'r fath yn erbyn datblygiad oherwydd ei bwysigrwydd arbennig. Ni ddylid datblygu tir yng ngraddau 1, 2 a 3a os nad oes angen tra phwysig am y datblygiad, ac nad yw tir sydd eisoes wedi'i ddatblygu neu dir gradd amgylcheddol is ar gael, neu os oes gan dir gradd is bwysigrwydd amgylcheddol sy'n cael ei gydnabod gan ddynodiad tirwedd, bywyd gwyllt, hanesyddol neu archeolegol sy'n drech na'r ystyriaethau amaethyddol. Os oes angen datblygu tir graddau 1, 2 neu 3a, a bod dewis ar gael rhwng safleoedd â graddau gwahanol, dylid dewis tir gradd isaf ar gyfer y datblygiad.

  Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ystyriaeth berthnasol yn y broses o lunio cynlluniau, ac rydym yn disgwyl i Gynlluniau Datblygu Lleol gael eu datblygu yn unol â pholisïau cenedlaethol.

- Derbyniwyd sylw yn mynegi pryder am ddefnydd y term 'twf gwyrdd', gan ddadlau bod pwyslais gwleidyddol ar dwf economaidd yn peryglu'r hinsawdd ac yn rhwystro trafodaeth onest ynglŷn â'r angen am ymaddasu.

  Bydd y defnydd o'r term uchod yn cael ei ystyried ar gyfer fersiwn derfynol y cynllun.

***Cwestiwn 4*** – Credwn yn gryf fod gan bawb gyfraniad i'w wneud i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd. Pa syniadau sydd gennych chi ar gyfer ymaddasu a chyfrannu at ein hamcanion?

Mae Llywodraeth Cymru wedi'i chalonogi gan y cynigion niferus a dderbyniwyd i gydweithio ar ymaddasu i newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, derbyniwyd nifer o enghreifftiau ac astudiaethau achos defnyddiol iawn yn ymwneud ag ymaddasu, a byddwn yn cyfeirio atynt yn ein gwaith cyfathrebu wrth symud ymlaen.

Bydd ein swyddogion yn cysylltu â sefydliadau sydd wedi cynnig cymorth unigol i weithredu'r camau a gyflwynir yng Nghynllun Drafft Ymaddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd. Hefyd, nododd yr ymateb i'r ymgynghoriad fod angen egluro mynediad i adnoddau er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cyfrannu. Felly, byddwn yn sicrhau bod fersiwn derfynol y cynllun yn egluro'r adnoddau ar gyfer pob un o'n polisïau. Defnyddiodd rhai sefydliadau'r cyfle hwn i amlygu gwaith ymchwil a gwblhawyd yn ddiweddar gan eraill sy'n helpu i lenwi bylchau mewn gwybodaeth am beryglon newid yn yr hinsawdd.

Rydym yn cydnabod bod angen pwysig i ni gryfhau ein dulliau o gyfleu peryglon newid yn yr hinsawdd a llywodraethu camau gweithredu'r cynllun, ac fe gawsom sawl cynnig ar gyfer cymorth i gyflawni hyn. Byddwn yn ystyried datblygu strwythur llywodraethu cliriach yn fersiwn derfynol y cynllun, a allai gynnwys rôl ar gyfer grŵp allanol i fynd i'r afael â materion cyfathrebu a llywodraethu.

***Cwestiwn 5*** – Beth arall all Llywodraeth Cymru ei wneud i wella gwaith cyfathrebu am risgiau ac effeithiau newid yn yr hinsawdd a'r angen i ymaddasu?

- Argyfwng hinsawdd

  Nododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad ei bod yn bwysig bod y Llywodraeth, gwleidyddion a gweision sifil yn cydnabod ac yn amlygu pryder y cyhoedd ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd, gan alw ar Gymru i ddatgan argyfwng hinsawdd er mwyn cefnogi'r datganiadau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd gan rai Awdurdodau Lleol.

  Yn dilyn cyfarfodydd â Gweinidogion Amgylcheddol y DU a'r Alban, mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi datgan argyfwng hinsawdd yng Nghymru. Rydym yn gobeithio y bydd datganiad argyfwng hinsawdd Llywodraeth Cymru yn helpu i ysgogi camau gweithredu yn y wlad hon a thramor, gan ein cymunedau, busnesau a sefydliadau ein hunain, a gan seneddau a Llywodraethau ledled y byd.

- Gwella gwybodaeth y cyhoedd

  Nododd sawl ymatebydd i'r ymgynghoriad fod angen sicrhau bod pobl Cymru o bob gallu a chefndir yn deall y cyfraniad y gallant ei wneud, a'u bod yn teimlo bod eu cyfraniad yn gwneud gwahaniaeth. Nododd sawl ymatebydd gryfderau'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer parhau â momentwm mesurau fel ailgylchu a gweithgareddau eraill. Gallai hyn fod ar ffurf creu ystadegau graffig i roi gwybodaeth i'r cyhoedd wrth gyrraedd cerrig milltir allweddol gan annog newid ymddygiad a gweithredu. Fodd bynnag, nododd un ymatebydd fod defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfleu peryglon ac effeithiau newid yn yr hinsawdd yn galonogol, ond rhybuddiodd nad yw'r

holl gyfryngau cymdeithasol ar gael i rai sefydliadau oherwydd rhesymau diogelwch. Os oes bwriad defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, roedd yr ymatebydd hwn yn credu bod angen cyfeirio pawb i un lleoliad lle mae'r holl wybodaeth ar gael (e.e. gwefan ddynodedig Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys pob dolen a chanllaw).

Gofynnwyd i ni gyfathrebu trwy gyhoeddi dadansoddiad o'r peryglon a'r effeithiau tebygol yn gyson, gan fanteisio ar bob cyfrwng sydd ar gael i ddarparu gwybodaeth i undebau llafur, sefydliadau gwirfoddol a grwpiau busnesau bach. Honnwyd y byddai hyn yn annog pobl i weithredu yn ôl eu gallu, heb yr angen am gyllid, gan sicrhau bod pobl yn cymryd rhan yn y broses. Roedd y syniadau eraill yn cynnwys:

- comisiynu adolygiadau o dystiolaeth yn ymwneud â'r wybodaeth sydd ar gael am effeithiolrwydd dewisiadau ymaddasu i newid yn yr hinsawdd gwahanol;
- cyfres o gyfarfodydd neuadd tref, digwyddiadau siarad mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, seminarau diwydiant, fforymau cyhoeddus a diwydiant ac ati;
- ymgysylltiad gweithredol â'r cyfryngau cymdeithasol, cyhoeddus a diwydiant. Adroddiad ar beryglon, cynlluniau a chamau gweithredu parhaus rhanbarthol;
- manteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o Ddatganiadau Ardal CNC a gweithgareddau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan esgor ar gamau gweithredu ymaddasu i newid yn yr hinsawdd i wella anghyfiawnderau iechyd a chryfder ecosystemau;
- ymgysylltu ag ymgyrchoedd marchnata fel brand 'Cymru/Wales' er mwyn cyfleu'r manteision cysylltiedig ar gyfer y newid yn yr hinsawdd sy'n deillio o gynnyrch Cymru, fel pren.

Rydym yn croesawu'r awgrymiadau a gafodd eu gwneud yn ystod yr ymgynghoriad. Byddwn yn cryfhau'r camau gweithredu cyfathrebu yn y cynllun drafft, a byddant yn cynnwys manylion penodol am gamau gweithredu cynllun cyfathrebu.

- Dogfennau cryno

Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, gofynnwyd i ni lunio fersiynau cryno a hwylus o'r cynllun terfynol. Hefyd, gofynnwyd i ni barhau i gyhoeddi Cylchlythyr Ymaddasu Llywodraeth Cymru ar ôl cyhoeddi'r cynllun.

Rydym yn bwriadu llunio nifer o ddogfennau cryno o Gynllun Ymaddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd. Bydd hyn yn cynnwys prif fersiwn cryno a fersiwn ar wahân ar gyfer plant a phobl ifanc, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu rhannu'r cynllun mor eang â phosibl. Hefyd, byddwn yn parhau i gyhoeddi cylchlythyr ymaddasu.

- Cyfleu effeithiau'r newid yn yr hinsawdd

Gofynnwyd i ni gyfleu effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn fwy eglur i'r cyhoedd a nodi bod yr effeithiau eisoes i'w gweld yn dilyn achosion amlach o dywydd gwael. Roedd un ymatebydd am i ni ddefnyddio dull cyfathrebu sy'n seiliedig mwy ar luniau a lleoedd, yn debyg i'r hyn a fabwysiadwyd gan y ddogfen "Working with a Changing Climate: A guide to adaptation in the Clwydian Range and Dee Valley AONB".

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu fersiwn newydd o'n taflen bresennol 'Newid Hinsawdd: Ei Effeithiau ar gyfer Cymru' er mwyn helpu pobl i ddysgu mwy am sut bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar y wlad. Bydd y daflen yn cynnwys dadansoddiad o ddata diweddaraf y Swyddfa Dywydd ar y newid yn yr hinsawdd – Rhagamcanion ar gyfer Hinsawdd y DU 2018.

- Cynllunio

  Derbyniwyd sylw yn gofyn i ni sicrhau bod pob Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried bygythiadau posibl newid yn yr hinsawdd ar gyfer pob cais cynllunio.

  Mae yna ofyniad cyfreithiol i benderfynu ceisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol oni bai bod amgylchiadau perthnasol yn dweud fel arall. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ystyriaeth berthnasol bwysig ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol, ac mae'r Awdurdodau'n gyfrifol am benderfynu pa dystiolaeth sy'n briodol wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

| ***Cwestiwn 6*** – Sut gallwch chi gyfrannu at gyfathrebu peryglon ac effeithiau newid yn yr hinsawdd a'r angen i ymaddasu? |
|---|

Fe aeth llawer o ymatebwyr ati i ddarparu manylion eu platfformau cyfathrebu allanol eu hunain sy'n rhannu newyddion a gwybodaeth am ymaddasu i newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys cynigion i ymgysylltu â chyhoeddiadau a gwaith cyfryngau gyda sefydliadau'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Hefyd, ymatebodd sefydliadau eraill trwy egluro beth y gallent ei wneud i helpu eu staff i ddeall y peryglon yn y gweithle a'r tu allan i'r gweithle. Mae sawl sefydliad eisoes yn bwriadu gwella eu canllawiau ar gyfathrebu er mwyn ystyried ymaddasu i newid yn yr hinsawdd yn eu gwaith ac yng ngwaith y cwmnïau y maent yn gweithio gyda nhw.

Mae rhai enghreifftiau penodol yn cynnwys:

- helpu i ddarparu tystiolaeth ac adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael yn ymwneud â sensitifrwydd newid yn yr hinsawdd a dewisiadau ymaddasu ar gyfer Llywodraeth Cymru;
- hyfforddi'r genhedlaeth nesaf ar y materion hyn trwy raglenni addysgu ac ymchwil;
- mynychu a defnyddio Fforymau Iechyd Cymru ar gyfer Ynni, Gwastraff, ISO14001 a Llesiant fel grwpiau i gyfleu peryglon ac effeithiau newid yn yr hinsawdd o Lywodraeth Cymru i Fyrddau Iechyd.

| ***Cwestiwn 7*** – Sut gallai'r camau gweithredu posibl i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd effeithio arnoch chi neu'r sefydliad rydych chi'n gweithio iddo? |
|---|

Derbyniwyd nifer fach o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Darparodd un sefydliad enghraifft dda o ystyried newid yn yr hinsawdd fel rhan o'i weithgareddau a'r angen cyson i leihau allyriadau fel gofyniad dilys y busnes. I rai sefydliadau, dadleuwyd y bydd angen rhagor o adnoddau o bosibl (e.e. cyllid, staff, cyfarpar ac ati) er mwyn rhoi camau gweithredu'r CCAPW ar waith. Mae rheoli'r amgylchedd mewn ffordd sy'n adfer ac yn cynnal yr ystod lawn o wasanaethau ecosystem yn debygol o fod yn heriol iawn.

***Cwestiwn 8*** - Sut gallai'r camau gweithredu posibl yn y cynllun hwn effeithio ar y canlynol? (iechyd y cyhoedd, cymunedau, y Gymraeg, cydraddoldeb, hawliau plant)

Fe aeth ymatebwyr i'r ymgynghoriad ati i restru effeithiau niferus y CCAPW. Maent wedi'u trefnu ar sail y 5 maes canlynol.

- O dan y categori **Iechyd y Cyhoedd**, nododd yr ymatebwyr y canlynol:
    - mae newid y dirwedd a thirwedd y ddinas, gan gynyddu mannau gwyrdd a gorchudd coed yn benodol, yn arwain at nifer o fanteision iechyd y cyhoedd.
    - mae'r camau gweithredu yn helpu i leihau llygredd ar lefel gymunedol ac unigol sy'n angenrheidiol i wella iechyd y cyhoedd.
    - mae angen rheoli systemau carthffosiaeth preifat yn well er mwyn cynnal iechyd y cyhoedd mewn ardaloedd gwledig. Mae'n debyg nad yw CNC yn gallu rhoi cyngor ar addasrwydd systemau draenio gwahanol nad ydynt yn rhan o'r prif gyflenwad, sy'n golygu bod pobl yn gorfod penderfynu pa systemau i'w prynu heb y wybodaeth ofynnol na'r cyngor annibynnol priodol.
    - bydd angen gwella iechyd y cyhoedd wrth i'r tymheredd gynyddu ac yn sgil y posibilrwydd y bydd mosgitos trofannol yn symud i'r gogledd.
    - mae effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio mwy ar gymunedau difreintiedig gan fod ganddynt lai o adnoddau neu gyfalaf cynhenid i ymdopi, felly mae'n bwysig bod y mesurau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith, gan roi blaenoriaeth i gymunedau agored i niwed.

- O dan y categori **Cymunedau**, nododd yr ymatebwyr y canlynol:
    - mae'r broses o hwyluso a darparu cymorth uniongyrchol ar gyfer camau gweithredu lleol i ymgyrchu dros newid yn yr hinsawdd yn cryfhau ac yn uno cymunedau.
    - mae camau gweithredu HP1 i HP5 yn hyrwyddo rôl y system gynllunio sy'n gallu hwyluso'r broses o gynnwys cadernid mewn cynigion datblygu cynaliadwy, yn ogystal â dylanwadu ar gynllunio datblygiadau i greu cymunedau mwy cydnerth o safbwynt yr amgylchedd adeiledig.
    - mae angen i'r cynllun terfynol adlewyrchu thema drawsbynciol cymunedau yn gryfach.
    - bydd cymunedau gwahanol yn cael eu heffeithio mewn ffyrdd gwahanol wrth i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd gynyddu. Mae cymunedau arfordirol yn debygol o wynebu'r perygl mwyaf, gan fod y cynnydd yn lefel y môr yn anorfod ac yn gymharol ragweladwy, gan ysgogi Llywodraeth Cymru i weithredu. Bydd y dewisiadau sy'n wynebu cymdeithas yn arwyddocaol iawn, gan gynnwys y posibilrwydd o orfod adleoli aneddiadau. Bydd angen ystyried y dewisiadau hyn yn ofalus iawn o ystyried graddfa'r aflonyddwch a'r effaith ar y cymunedau perthnasol.

- O dan gategori **y Gymraeg,** nododd yr ymatebwyr y canlynol:
    - bydd gwella dealltwriaeth trwy gyfathrebu effeithiol yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg gan sicrhau bod pawb yn deall y camau gweithredu posibl trwy gynhyrchu'r holl ddeunyddiau yn ddwyieithog.
    - ni ddylai'r cynllun gael effaith niweidiol ar y Gymraeg.
    - gellid dadlau bod pob cam gweithredu ymaddasu yn creu'r amodau i'r Gymraeg oroesi a ffynnu.

- O dan y categori **Cydraddoldeb**, nododd yr ymatebwyr y canlynol:

  - mae’r camau gweithredu yn cwmpasu meysydd eang ac yn hyrwyddo dulliau cyfathrebu effeithiol a ddylai gynnwys pob unigolyn yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau bod gan bob unigolyn gyfle cyfartal i wneud y gorau o’i fywyd a’i dalentau ac nad yw cyfleoedd bywyd neb yn cael eu heffeithio gan sut cawsant eu geni, o ble maent yn dod, beth maent yn ei gredu, neu os oes ganddynt anabledd.
  - bydd y newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bob un ohonom, a dylai pawb gyfrannu at y gwaith o leihau ei effeithiau. Dylai cymorth ar sail prawf modd fod ar gael i’r rhai sy’n llai abl i ariannu unrhyw gamau lliniaru.
  - cydnabyddir yn eang bod y bobl dlotaf yn debygol o ddioddef effeithiau gwaethaf newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn berthnasol ar lefel ryngwladol, ac mae gwledydd fel Bangladesh yn agored i niwed oherwydd cynnydd yn lefel y môr. Yn ôl astudiaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, mae cymunedau sydd eisoes yn dioddef amddifadedd lluosog yn debygol o ddioddef effeithiau mwyaf newid yn yr hinsawdd hefyd.

- O dan y categori **Hawliau Plant**, nododd yr ymatebwyr y canlynol:

  - mae hawliau plant yn hanfodol i fynd i’r afael â’r newid yn yr hinsawdd, sy’n bygwth llesiant cenedlaethau’r dyfodol. Mae’r mater hwn yn ymwneud â hawliau plant, ac mae angen ei ystyried yn unol â hynny.
  - dylai’r camau gweithredu sicrhau bod gan blant o bob math gyfle cyfartal i fyw eu bywydau i’w potensial llawn trwy wella’r broses o wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.
  - mae gan blant a phobl ifanc hawl i ddisgwyl bod popeth yn cael ei wneud i ddiogelu eu dyfodol, ac mae dull gweithredu’r ddogfen hon yn ceisio gwneud hynny.
  - bydd y broses o weithredu’r cynllun hwn yn llwyddiannus yn brawf gwirioneddol o allu’r Llywodraeth (a’r Sector Cyhoeddus yn fwy cyffredinol) i roi bwriadau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol ar waith. Bydd plant yn profi effeithiau’r newid yn yr hinsawdd yn fwy na neb arall sy’n byw heddiw.

| ***Cwestiwn 9*** – Sut gallai’r camau gweithredu posibl i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd gyfrannu at gyflawni’r nodau llesiant cenedlaethol?[7] |
|---|

Cytunodd yr ymatebwyr i’r ymgynghoriad fod cysylltiau clir wedi’u gwneud rhwng Cynllun Drafft Ymaddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd a Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae’r sylwadau wedi’u crynhoi isod.

- Roedd un ymatebydd yn dadlau bod Cymru wedi arwain y ffordd ar nifer o ddeddfau arloesol, fel Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, a bod yna gysylltiadau penodol rhwng y CCAPW drafft a nodau ‘Cymru Ffyniannus’, ‘Cymru Gydnerth’, ‘Cymru Iachach’ a ‘Chymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang’.
- Roedd ymatebydd arall yn croesawu presenoldeb Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 gydol yr ymgynghoriad ac yn adleisio pwysigrwydd y nodau llesiant, yn enwedig felly ym meysydd ffyniant, cadernid, diwylliant ac iaith, cydraddoldeb a chydlyniant.

[7] https://llyw.cymru/llesiant-cymru

- Fodd bynnag, nododd ymatebydd arall nad oes modd cyflawni'r camau gweithredu na'r targedau cysylltiedig heb ganllawiau clir a chymorth ar gyfer sefydliadau eraill.

Yn ogystal â'r sylwadau uchod, derbyniwyd sawl awgrym i wella'r cysylltiad rhwng camau gweithredu'r cynllun a'r nodau llesiant cenedlaethol.

- Gofynnodd un ymatebydd am ychwanegu rhesi at dablau'r camau gweithredu er mwyn dangos y nodau llesiant a gefnogir gan y cam gweithredu arfaethedig (a mwy o fanylion yn y testun ategol). Hefyd, gofynnwyd i ni gynnwys tabl cryno terfynol o'r holl gamau gweithredu a'u cysylltiadau â'r nodau llesiant, ar ffurf atodiad.
- Gofynnodd ymatebydd arall am adroddiadau cynnydd interim yn erbyn camau, peryglon ac effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- Derbyniwyd cwestiwn yn gofyn a ddylai Cynllun Ymaddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd gael ei ategu gan asesiadau effaith, ac a yw'r cynllun wedi'i sgrinio o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004.

  Bydd swyddogion yn adolygu diwyg y cynllun terfynol i weld a oes modd gwella diwyg tablau'r camau gweithredu ym mhob pennod er mwyn nodi'r cysylltiadau â'r nodau llesiant. Mae gallu monitro cynnydd ac effaith y gweithgarwch a amlinellir yn y CCAPW yn ystyriaeth bwysig i Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn gweithio i ddatblygu dull cynhwysiant yn y cynllun drafft terfynol, i'w gymeradwyo gan y Gweinidog. Cwblhawyd pob asesiad effaith statudol wrth ddatblygu Cynllun Ymaddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd.

| |
|---|
| ***Cwestiwn 10*** - Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am yr ymgynghoriad hwn? |

Derbyniwyd nifer fawr o sylwadau o dan gwestiwn 10, ac maent wedi'u crynhoi isod ar sail meysydd pwnc gwahanol, yn debyg i gwestiwn 3. Mae rhai sylwadau a dderbyniwyd o dan y cwestiwn hwn eisoes wedi'u crynhoi a'u cynnwys o dan gwestiwn 3 uchod, ac mewn achosion o'r fath, nid yw'r sylwadau wedi'u cynnwys eto. Fodd bynnag, rhoddir yr un ystyriaeth i'r sylwadau hynny.

*Strategaeth a chyfathrebu*

- Cynllun y ddogfen

  Daeth nifer o sylwadau i law yn gofyn am gynllun gweledol gwell ar gyfer y ddogfen er mwyn sicrhau bod modd dod o hyd i wybodaeth yn hawdd. Hefyd, gofynnwyd i ni wella Atodiad 1 o'r ddogfen i gynnwys rhifau symlach ar gyfer camau gweithredu (heb fyrfoddau), enwau partneriaid darpariaeth ac amserlenni.

  Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adborth ar nodweddion diwyg a chynllun CCAPW, a bydd yn ceisio eu gwella yn fersiwn derfynol y cynllun.

- Newid hinsawdd a'r tywydd

  Awgrymwyd bod angen i Gynllun Ymaddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd gynnwys yr ymateb brys i ddigwyddiadau tywydd eithafol a chymorth i adfer y sefyllfa wedyn.

Mae Cynllun Ymaddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd yn ymateb i'r peryglon sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd fel y'u nodir yn Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU. Mae ymatebion uniongyrchol i ddigwyddiadau tywydd eithafol yn cael eu rheoli yn unol â chylch gwaith Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004. Rydym yn cydnabod y gall bygythiadau tywydd eithafol waethygu, ac mae'r cynllun drafft yn cynnwys gwybodaeth am sut byddwn yn gweithio gyda Fforymau Cydnerthedd Lleol i wella'r ymateb brys.

*Dŵr, llifogydd, arfordiroedd a'r moroedd*

- Dŵr ac amaethyddiaeth

  Mynegwyd pryder nad yw'r asesiad risg a ddefnyddiwyd i hysbysu'r cynllun yn cynnwys gwybodaeth am risgiau sy'n gysylltiedig â dyfrhau, gan gynnwys sychder a llif dŵr isel, seilwaith, costau cynnal ac effeithiau ar adnoddau dŵr rhanbarthol. Gofynnwyd i ni roi blaenoriaeth i ddŵr ar gyfer cynhyrchu bwyd, a dadleuwyd bod angen i ni wneud mwy i ddeall effeithiau economaidd buddsoddiadau newydd mewn seilwaith dyfrhau ar yr economi wledig.

  Yn ôl un ymatebydd, mae canolbwyntio ar un sector (amaethyddiaeth) yn unig yn annhebygol o sicrhau'r gwelliannau gofynnol i ansawdd dŵr ar hyn o bryd neu yn y dyfodol o dan yr ystod o senarios newid yn yr hinsawdd. Hefyd, roedd yn teimlo bod angen sicrhau cymhelliant priodol a chydnabyddiaeth deg ar gyfer y mesurau ymarferol y mae gofyn i ffermwyr eu cyflwyno er mwyn atal neu leihau'r effeithiau ar rywogaethau dŵr croyw oherwydd y cynnydd yn nhymheredd y dŵr ac effeithiau eraill.

  Yn ôl ymatebydd arall, er bod amaethyddiaeth yn gallu cyfrannu at reoli perygl llifogydd, mae'n rhaid i ddull gweithredu'r dyfodol gael ei gynllunio a'i gydgysylltu'n well er mwyn gwella'r broses o ddiogelu tir amaethyddol, cymunedau gwledig ac ardaloedd trefol. Yn ôl yr ymatebydd hwn, os yw ffermwyr yn darparu gwasanaeth i liniaru perygl llifogydd er mwyn helpu i amddiffyn eraill, mae'n rhaid iddynt gael eu talu'n deg.

  Mae'r Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd yn nodi effeithiau sychder a chyflenwadau dŵr isel ar amaethyddiaeth yng Nghymru. Bydd yr awgrymiadau uchod yn cael eu hystyried ar gyfer fersiwn derfynol y cynllun.

  Mae'r mesurau a amlinellir yn y cynlluniau i reoli basnau afonydd yn berthnasol i bob sector, ac rydym yn cydnabod bod yn rhaid i bob sector gyfrannu at sicrhau statws da ar gyfer pob corff dŵr.

- Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM)

  Fe gawsom ganmoliaeth am gynnwys diwygiad arfaethedig i'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer FCERM ac am gynnwys dull adrodd blynyddol newydd i fonitro cynnydd camau gweithredu Cynlluniau Rheoli Traethlin. Fodd bynnag, gofynnwyd i ni

gynnwys asesiad o allu Grwpiau Arfordirol (a rhanddeiliaid unigol sy’n aelodau ohonynt) i roi’r camau gweithredu ar waith. Hefyd, derbyniwyd cwestiynau manwl am ddefnydd a diben y pecyn cymorth ymaddasu arfordirol a’r gallu i weithredu polisïau SMP2.

Gan fod angen i’r CCAPW gwmpasu sawl maes, rydym yn credu y byddai ychwanegiadau o’r fath yn rhy fanwl i’w cynnwys yn fersiwn derfynol y cynllun. Fodd bynnag, mae’r sylwadau wedi’u nodi ac maent wedi’u hystyried yn y Strategaeth Genedlaethol ddrafft newydd at ddibenion ymgynghori.

- Effeithiau erydu arfordirol ar lesiant

  Yn ôl un ymatebydd i’r ymgynghoriad, mae yna fwlch gallu ac angen gwneud gwaith ymchwil mewn perthynas ag effeithiau iechyd meddwl a llesiant sy’n deillio o fyw mewn ardaloedd arfordirol a fydd yn wrthrych adlinio a reolir yn y dyfodol neu dim ymyrraeth. Roedd yn dadlau bod angen ymgymryd â gwaith ymchwil er mwyn deall sut gellir gwella’r broses o gysoni dulliau llywodraethu FCERM ag amcanion iechyd a llesiant.

  Mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau gwaith ymchwil gyda Chyngor Gwynedd yn ymwneud ag effeithiau economaidd-gymdeithasol ymaddasu arfordirol. Mae’r gwaith hwn yn parhau trwy Brosiect Risg Gymdeithasol Fairbourne (i’w gwblhau yn 2019).

- Ymaddasu i lifogydd ar lefel eiddo

  Daeth sylwadau i law nad yw’r cynllun yn gwneud digon i fynd i’r afael â mesurau ymaddasu lefel eiddo i berygl llifogydd, a sut gellir mynd i’r afael â’r rhain trwy ddulliau llywodraethu, fel prisiau sy’n adlewyrchu risg ym maes yswiriant.

  Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i’r cynllun yswiriant ‘Flood Re’ er mwyn helpu i sicrhau bod yswiriant yn fforddiadwy. Fodd bynnag, nid yw’r cynllun yn berthnasol i gartrefi a adeiladwyd ar ôl 2009, er mwyn ceisio atal datblygiadau amhriodol, a bwriedir dileu’r cynllun yn raddol er mwyn hwyluso premiymau sy’n adlewyrchu risg. Er ein bod yn hyrwyddo mesurau cryfhau eiddo unigol a gwaith atgyweirio cryf yn y Strategaeth Genedlaethol arfaethedig ar gyfer FCERM, mae unrhyw hyrwyddo pellach gan gwmnïau yswiriant, a’r prisiau perthnasol a bennir ganddynt, yn seiliedig ar benderfyniad masnachol.

- Cyrff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy

- Awgrymodd un ymatebydd y dylem ychwanegu cam gweithredu penodol ar gyfer monitro a mynd i’r afael â rhwystrau capasiti posibl i’r broses o gyflawni cyfrifoldebau Cyrff Cymeradwyo Draenio Cynaliadwy, yn enwedig o safbwynt cyllid refeniw ar gyfer cynnal y Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) perthnasol.

  Mae dwy ffordd o ymdrin â materion capasiti mewn Awdurdodau Lleol. Yn gyntaf, mae’r Asesiad Effaith a gwblhawyd wrth ddatblygu’r polisi wedi nodi costau cychwynnol ar gyfer sefydlu Cyrff Cymeradwyo SDCau ym mhob Awdurdod Lleol, a allai amrywio o £20,000 i £50,000. Ym mis Mawrth 2019, derbyniodd yr Awdurdodau Lleol gyllid grant gwerth £20,000 yr un i ymdrin â materion o’r fath. Yn ail, fel y nodwyd yn ein canllawiau statudol, cynhelir adolygiad o fewn dwy flynedd i gyflwyno’r cynllun a fydd yn cynnwys rhanddeiliaid, a Chyrff Cymeradwyo, fel bod modd

gwneud newidiadau ar sail tystiolaeth i'r broses o bennu ffioedd yn unol â'r hyn a nodir yn y ddeddfwriaeth.

- Cynlluniau rheoli adnoddau dŵr (WRMP)

  Gofynnwyd i ni gadarnhau swyddogaeth Gweinidogion yn y broses o gymeradwyo'r cynllun WRMP gan fod hwn yn ddull ysgogi pwysig ar gyfer Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod Cymru'n paratoi ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Hefyd, gofynnwyd i ni ystyried sut dylai cyrff eraill sy'n echdynnu dŵr gynllunio ar gyfer y dyfodol, a chyfraniad Llywodraeth Cymru at gymeradwyo'r cynlluniau hyn.

  Gan fod angen i'r CCAPW gwmpasu llawer o feysydd, mae'r manylion hyn wedi'u cynnwys yn y dogfennau polisi perthnasol y mae'r CCAPW yn cyfeirio atynt. Fodd bynnag, mae'r sylwadau hyn wedi'u nodi a byddant yn cael eu hystyried ar gyfer adolygiad polisi yn y dyfodol gan isadran polisi arweiniol Llywodraeth Cymru.

- Rheoli dŵr gwastraff

  Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at gyfraniad Cynlluniau Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (DWMPs) at ymaddasu i newid yn yr hinsawdd. Nododd rhai ohonynt fod yna ddadl ynglŷn ag a ddylid gwneud DWMPs yn statudol, yn yr un modd â'n WRMPs. Hefyd, awgrymwyd y dylem gyfeirio at ymgyrch 'Stop Cyn Creu Bloc' Dŵr Cymru (yn ymwneud â gwaredu eitemau amhriodol yn y system garthffosiaeth), sydd wedi cynnwys hysbysebion teledu. Hefyd, nodwyd bod Water UK wedi lansio safon "Fine to Flush" er mwyn nodi pa gynhyrchion y gellir eu gwaredu i lawr y toiled yn ddiogel.

  Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried statws DWMPs, ac rydym yn ymgysylltu â Dŵr Cymru ar y mater hwn. Byddwn yn ystyried gwaith diweddar Dŵr Cymru a Water UK wrth ddatblygu fersiwn derfynol y cynllun.

*Amaethyddiaeth, rheoli tir a phriddoedd*

- Adnoddau i ddiogelu mawndir

  Gofynnodd un ymatebydd i Lywodraeth Cymru ddarparu cymorth a chanllawiau priodol i Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn adfer mawndiroedd fel mater brys, gan sicrhau cyfraniad amserol at ymaddasu i newid yn yr hinsawdd.

  Ar hyn o bryd, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda CNC i wella'r dull gweithredu yn ymwneud â mawndiroedd. Mae mawn yn un o adnoddau amgylcheddol naturiol pwysicaf Cymru, ac mae CNC eisoes yn hyrwyddo'r broses o ddiogelu mawndiroedd a'u rheoli'n gynaliadwy.

- Derbyniwyd sylw yn gofyn i ni wneud cysylltiadau â blaenoriaeth diogelwch bwyd a nodir yng Nghytundeb Paris UNFCCC COP21.

  Byddwn yn ystyried cyfeirio at ddiogelwch bwyd a Chytundeb Paris yn y cyflwyniad i'r bennod berthnasol.

*Coetiroedd a choedwigaeth*

- Creu coetiroedd

Derbyniwyd sylw bod creu coetiroedd sydd wedi'u cynllunio'n wael mewn lleoedd amhriodol yn gallu cael effaith negyddol ar gynefinoedd agored blaenoriaeth a'r rhywogaethau a gynhelir ganddynt, a bod angen i'r broses o greu coetiroedd fod yn seiliedig ar egwyddor 'y goeden gywir yn y lle priodol'. Hefyd, teimlodd yr ymatebodd nad yw effeithiau carbon sy'n deillio o greu coetiroedd, yn enwedig coedwigaeth fasnachol, yn cael eu deall yn dda, a bod angen gwneud gwaith ymchwil i helpu i ddeall cyfleoedd a chostau ecolegol ehangu coetiroedd, ar lefel y DU, lefel genedlaethol a lefel ranbarthol.

Mae rhagdybiaeth eisoes yn bodoli yn erbyn plannu ar gynefinoedd gwerth uchel gan gynnwys mawndir, a dylai'r broses o gynllunio coetiroedd ystyried y ffactor hwn a ffactorau eraill fel diogelu dŵr, y dirwedd a nodweddion hanesyddol, yn unol â Safon Coedwigoedd y DU ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Rydym wedi cyhoeddi map cyfleoedd creu coetiroedd ar ein porth 'Lle', sy'n dangos yr ardaloedd lle'r ydym yn gwybod y bydd plannu coed yn creu manteision cyhoeddus sylweddol. Rydym yn bwriadu gwella'r map cyfleoedd coetir i ddangos yr ardaloedd sydd â'r fantais gyhoeddus fwyaf, gan nodi'r math o goed a graddfa'r gwaith plannu sy'n briodol. Bydd datganiadau ardal CNC yn nodi cyfleoedd i gyflwyno ein Polisi Adnoddau Naturiol ar lefel ranbarthol a lle, gan ddarparu tystiolaeth i ddatblygu rhwydweithiau ecolegol a darparu gwasanaethau ecosystem i ddiwallu mwy anghenion mwy lleol.

- Diogelu coetiroedd

Cyfeiriodd un ymatebydd at waith prosiect Coedwigoedd Glaw LIFE o dan arweiniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (mae'r RSPB yn un o'r partneriaid). Bydd y prosiect yn sicrhau bod coetiroedd sy'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn cael eu rheoli'n ffafriol, yn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â rhywogaethau estron goresgynnol, ac yn diogelu coed hynafol a threftadaeth.

Dyma enghraifft dda o ddiogelu coetiroedd, a bydd swyddogion yn rhoi ystyriaeth iddi fel astudiaeth achos ar gyfer fersiwn derfynol y cynllun.

*<u>Bioamrywiaeth</u>*

- Bioamrywiaeth

Yn ôl un ymatebydd, mae angen i'r CCAPW drafft gydnabod bod y llinell sylfaen yn symud ac y bydd pethau'n wahanol yn y dyfodol oherwydd bod yr hinsawdd yn newid. Er enghraifft, ni ddylid disgwyl y bydd cynnydd mewn bioamrywiaeth yn golygu y bydd y niferoedd o'r un rhywogaeth yn cynyddu neu y bydd mwy o rywogaethau y disgwylir i'r cynefin eu cynnal; yn hytrach, gall y rhywogaethau a'r niferoedd fod yn gwbl wahanol yn y dyfodol.

Amcan ein polisi yw cynnal a gwella cryfder ecosystemau ar raddfa tirwedd, gan y bydd hyn yn golygu bod byd natur yn gallu ymaddasu'n well ac, yn gyffredinol, dylai wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, y bydd angen i ni ei mesur yn wahanol o bosibl. Yn y pen draw, gallem golli rhywogaethau os yw ffactorau'r hinsawdd yn gweithredu yn eu herbyn, ond byddwn yn ennill rhai rhywogaethau hefyd - yn enwedig y rhywogaethau mwy symudol yn y lle cyntaf.

- Ecosystemau morol

  Yn ôl un ymatebydd, nid yw cam gweithredu MC2 yn y cynllun drafft yn cynnwys digon o fanylion, ac mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i fygythiadau amrywiol newid yn yr hinsawdd i ecosystemau morol. Derbyniwyd awgrymiadau i wella'r camau gweithredu, gan gynnwys:

  - Rhannu elfennau treftadaeth ac ecosystemau morol amcan CCAPW-MC2 a chreu dau amcan ar wahân er mwyn cydnabod y ffaith fod yr heriau hinsawdd a'r camau gweithredu cysylltiedig ar gyfer y ddau faes hyn yn wahanol iawn;
  - Ehangu'r amcan ecosystemau morol i gynnwys holl effeithiau'r hinsawdd (yn hytrach na graddfa asideiddio'r cefnforoedd a'r tymheredd uwch yn unig);
  - Adolygu'r rhanddeiliaid a restrir yn y cam gweithredu;
  - Rhoi mwy o bwyslais ar effeithiau newid yn yr hinsawdd ar ecosystemau morol a'r angen brys am ragor o waith ymchwil i lenwi bylchau tystiolaeth.

  Yn dilyn yr adborth hwn, byddwn yn adolygu cam gweithredu MC2. Byddwn yn adolygu camau gweithredu yn ymwneud â'r amcan ecosystemau morol gyda rhanddeiliaid perthnasol yn y maes hwn.

*Busnes, yr economi a seilwaith*

- Rhanddeiliaid a phartneriaid cyflenwi

  Gofynnwyd i ni gynnwys rhanddeiliaid fel cwmnïau bysiau er mwyn helpu i ddeall peryglon newid yn yr hinsawdd i'r seilwaith trafnidiaeth yng Nghymru (cam gweithredu IT1). Yn yr un modd, gofynnwyd i ni nodi'r rhanddeiliaid, fel rhanddeiliaid yn y sectorau cyfleustodau, sy'n cyfrannu at ein gwaith cryfhau rhwydweithiau seilwaith (cam gweithredu IT2).

  Rydym yn croesawu'r adborth a byddwn yn sicrhau bod y rhestr o randdeiliaid yn canolbwyntio ar y rhai a fydd yn helpu i adeiladu neu reoli seilwaith trafnidiaeth a chyfleustodau.

*Iechyd*

- Ffynhonnau dŵr

  O safbwynt risgiau i iechyd a llesiant oherwydd tymheredd uchel, cyfeiriodd un ymatebydd at bwysigrwydd mynediad i gyflenwad dŵr cyhoeddus mewn dinasoedd, parciau, ysgolion, meysydd chwarae ac ati, gan nodi bod mynediad hawdd i ddŵr yn gallu helpu cymunedau i wrthsefyll tywydd crasboeth.

  Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod mynediad i ddŵr cyhoeddus yn gallu gwneud cyfraniad pwysig at helpu pobl i aros yn oer ac yn hydradol yn y dyfodol cynhesach. Mewn gwirionedd, rydym wrthi'n gweithio gyda City to Sea a'r cwmnïau dŵr yng Nghymru i greu'r Genedl Ail-lenwi gyntaf. Os oes mwy o fannau ail-lenwi neu ffynhonnau dŵr ar gael, byddwn yn helpu i leihau nifer y poteli plastig untro sy'n cyrraedd yr amgylchedd morol ac yn amharu ar yr amgylchedd naturiol. Mae hyn yn hanfodol bwysig er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a chyflawni ein nodau llesiant i Gymru.

*Yr Amgylchedd Hanesyddol*

- Cynllunio'r amgylchedd hanesyddol

  Gofynnodd un ymatebydd am ragor o gydnabyddiaeth i'r ffaith y gallai'r amgylchedd hanesyddol gyfrannu llawer mwy at ymaddasu os yw cyfyngiadau cynllunio'n cael eu lleihau.

  Mae canllaw newydd ar Reoli Newid i Addoldai Rhestredig yng Nghymru [8] ac Egwyddorion Cadwraeth Cadw yn ei gwneud yn glir nad oes rhagdybiaeth yn erbyn newid cyn belled â'i fod yn cael ei reoli'n dda mewn ffordd sy'n parchu ein hasedau hanesyddol. Mae Cadw yn cefnogi cyfleoedd ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni a microgynhyrchu os yw cynigion yn cael eu cynllunio a'u gosod mewn ffordd sensitif. Mae'r Fforwm Addoldai Hanesyddol yn darparu dull o rannu arferion da yn y cyswllt hwn ac ym meysydd eraill lle y bydd adeiladau'n gorfod addasu o bosibl er mwyn diwallu anghenion sy'n newid.

- Rhanddeiliaid

  Cafwyd nifer o awgrymiadau ychwanegol gan randdeiliaid ar gyfer camau gweithredu yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol.

  Bydd y rhestr o randdeiliaid yn cael ei hadolygu cyn cyhoeddi fersiwn derfynol y cynllun.

*Pobl a chymunedau*

- Derbyniwyd sylw yn gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried swyddogaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac eraill wrth helpu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs) i gyflwyno rhai o'r camau gweithredu a nodir yn y CCAPW, ac i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cymunedau a PSBs yn ymwybodol o beryglon newid yn yr hinsawdd.

  Mae llesiant amgylcheddol yn rhan bwysig o waith y PSBs. Mae nifer o'r byrddau wedi nodi blaenoriaethau yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd, ac mae'r amgylchedd wedi'i gynnwys ym mhob un o'r cynlluniau llesiant lleol. Mae CNC yn aelod statudol o'r PSBs, ac mae'n dod â safbwynt amgylcheddol i'r gwaith.

  Hefyd, mae PSBs yn defnyddio cyllid rhanbarthol Llywodraeth Cymru i gydweithio ar draws ffiniau er mwyn gwrthsefyll effaith y newid yn yr hinsawdd. Mae'r fenter "Climate Resilient Gwent" yn cael ei datblygu gan 5 PSB Gwent, ac mae wedi cynnwys sesiynau cyfranogiad cymunedol, profiadau ymarferol, hanesion ysgrifenedig ac astudiaethau achos a digwyddiadau gyda rhanddeiliaid ledled y rhanbarth. Y nod yw sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn deall atebion sy'n gallu amrywio rhwng cymunedau.

[8] https://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/historicenvironment/20181120Managing_Change_Listed_Places_of_Worship-ENG.pdf

*Rheoliadau cynllunio ac adeiladu*

- Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau)

  Dywedodd un ymatebydd ei fod yn disgwyl i'r maes cynllunio gael mwy o ddylanwad ar ddyfodol ymaddasu i newid yn yr hinsawdd, wrth i dir ac adeiladau ddod o dan bwysau cynyddol. Ym marn yr ymatebydd, bydd hyn yn golygu bod angen polisïau wedi'u datblygu'n dda mewn Cynlluniau Datblygu Lleol, a bydd angen i Awdurdodau Cynllunio Lleol gael adnoddau da i lywio newid a defnydd. Hefyd, roedd yn dadlau bod diffyg adnoddau ar gyfer adrannau cynllunio lleol yn rhwystr allweddol i gynllunio'n effeithiol ar gyfer newid yn yr hinsawdd.

  Roedd un ymatebydd eisiau tynnu awdurdodau cynllunio oddi ar y rhestr o randdeiliaid yng ngham gweithredu HP2 (cynllunio cartrefi ac adeiladau) gan nad yw awdurdodau cynllunio yn gwneud gwaith ar reoliadau adeiladu. Gofynnwyd i ni ychwanegu Cynghorau Cymuned a Thref fel rhanddeiliaid yng ngham gweithredu HP4.

  Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y bydd y maes cynllunio yn cael mwy o ddylanwad ar ymaddasu yn y dyfodol. Mae 23 Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru, ac mae gan bob un ohonynt Gynllun Datblygu Lleol. Rydym yn ymwybodol bod adrannau cynllunio lleol wedi bod yn brin o adnoddau ers blynyddoedd lawer, a bod hyn yn llesteirio'r gwaith o wireddu polisïau. Rydym yn gweithio i ystyried goblygiadau adennill costau llawn yn y system gynllunio, gan ganiatáu ffioedd cynllunio uwch i dalu am hyn o bosibl.

  Bydd y rhestri o randdeiliaid ar gyfer y camau gweithredu uchod yn cael ei hadolygu yn fersiwn derfynol y cynllun.

- Amaethyddiaeth a chynllunio

  Derbyniwyd sylw yn honni bod y camau gweithredu arfaethedig wedi hepgor cryfder amaethyddol a'r system cynllunio defnydd tir. Roedd yr ymatebydd yn dadlau bod angen i'r cynllun hyrwyddo cefnogaeth i'r polisi cynllunio sydd wedi'i sefydlu, sef bod angen diogelu'r tir amaethyddol gorau, a'i bod yn well lleoli datblygiadau ar safleoedd tir llwyd a thir heb ei ddatblygu o ansawdd amaethyddol is.

  Mae Polisi Cynllunio Cymru yn gosod fframwaith polisi clir sy'n ei gwneud yn ofynnol i ailddefnyddio safleoedd tir llwyd yn hytrach na safleoedd maes glas. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'r angen i ddiogelu'r tir Gorau a Mwyaf Hyblyg hefyd.

- Ymaddasu arfordirol

  Yn ôl un ymatebydd, dylai'r camau gweithredu amrywiol sy'n ymwneud â llifogydd gydnabod cyfraniad y system gynllunio a Chynlluniau Datblygu Lleol at sicrhau bod cynigion datblygu newydd yn gyson â chynigion ymaddasu arfordirol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynlluniau Rheoli Traethlin. Hefyd, gofynnodd am ddiweddaru Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 14 (Cynllunio Arfordirol) a'i gynnwys yn y cynllun. Gofynnodd ymatebydd arall am ystyried yr adolygiad o TAN 15 fel mater brys.

  Mae diwygiadau i TAN 15 (Datblygiad a Pherygl Llifogydd) yn mynd rhagddynt, a bydd TAN 14 yn cael ei gynnwys fel rhan o hyn. Cyfeirir at y gwaith hwn yn fersiwn derfynol y cynllun.

- Inswleiddio wal geudod

  Nododd un ymatebydd fod argymhelliad presennol Llywodraeth Cymru yn ymwneud ag inswleiddio wal geudod yn gysylltiedig â lleithder a chanlyniadau gwrthgynhyrchiol eraill mewn ardaloedd sy’n cael gwyntoedd cryf a glaw trwm. Gan y bydd tywydd o’r fath yn effeithio ar fwy o ardaloedd, ac yn digwydd yn amlach, yn sgil y newid yn yr hinsawdd, gofynnodd yr ymatebydd am adolygu’r polisi hwn, a’i newid.

  Mae gofynion cynlluniau unigolion cymwys yn ymwneud ag inswleiddio wal geudod wedi’u hadolygu, ac mae asesiadau annibynnol o addasrwydd eiddo wedi’u cryfhau. Pan fydd yr adolygiadau o Publicly Available Specification 2030 a 2035 wedi’u cwblhau, bydd swyddogion polisi rheoliadau adeiladu arweiniol yn ystyried yr angen am ragor o newidiadau i ofynion rheoliadau adeiladu.

**Adran B – Ymatebion yn ymwneud â datgarboneiddio**

Daeth nifer o sylwadau i law gan ymatebwyr i’r ymgynghoriad yn ymwneud â lliniaru’r newid yn yr hinsawdd (cyfeirir at hyn fel datgarboneiddio yn aml). Ers cyhoeddi ein hymgynghoriad drafft ar Gynllun Ymaddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi *‘Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel’*, sy’n cyflwyno ein cynlluniau i gyrraedd ein set gyntaf o dargedau lleihau allyriadau statudol. Rydym wedi defnyddio ymatebion o’n hymgynghoriad ar ddatgarboneiddio: *‘Cyflawni ein llwybr carbon isel hyd at 2030*’ i lywio’r gwaith o ddatblygu ‘*Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel’*. Byddwn yn cyhoeddi ein hymateb i’r ymgynghoriad hwn yn ddiweddarach eleni.

## Atodiad 1 – Cwestiynau'r Ddogfen Ymgynghori

***Cwestiwn 1*** - Ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad? Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, rhowch enw'r sefydliad.

***Cwestiwn 2*** - Yn gyffredinol, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r camau gweithredu posibl ar gyfer ymaddasu i newid yn yr hinsawdd a nodir yn y ddogfen hon (1=cytuno'n llwyr, 5=anghytuno'n llwyr) .

***Cwestiwn 3*** - Oes gennych chi unrhyw syniadau am sut dylem gyflawni'r camau gweithredu posibl ar gyfer ymaddasu i newid yn yr hinsawdd?

***Cwestiwn 4*** - Credwn yn gryf fod gan bawb gyfraniad i'w wneud i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd. Pa syniadau sydd gennych chi ar gyfer ymaddasu a chyfrannu at ein hamcanion?

***Cwestiwn 5*** - Beth arall all Llywodraeth Cymru ei wneud i wella gwaith cyfathrebu am risgiau ac effeithiau newid yn yr hinsawdd a'r angen i ymaddasu?

***Cwestiwn 6*** - Sut gallwch chi gyfrannu at gyfathrebu peryglon ac effeithiau newid yn yr hinsawdd a'r angen i ymaddasu?

***Cwestiwn 7*** - Sut gallai'r camau gweithredu posibl i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd effeithio arnoch chi neu'r sefydliad rydych chi'n gweithio iddo?

***Cwestiwn 8*** - Sut gallai'r camau gweithredu posibl yn y cynllun hwn effeithio ar y canlynol? (iechyd y cyhoedd, cymunedau, y Gymraeg, cydraddoldeb, hawliau plant)

***Cwestiwn 9*** - Sut gallai'r camau gweithredu posibl i ymaddasu i newid yn yr hinsawdd gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol?

***Cwestiwn 10*** - Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am yr ymgynghoriad hwn?